



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 696 (Cy. 154)

2020 No. 696 (W. 154)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**CYMWYSTERAU
PROFFESIYNOL, CYMRU**

**PROFESSIONAL
QUALIFICATIONS, WALES**

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

SOCIAL CARE, WALES

**Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd
(Asesu Cymesuredd Proffesiynau
Rheoleiddiedig) (Cymru) 2020**

**The European Union (Regulated
Professions Proportionality
Assessment) (Wales) Regulations
2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a'r UE o dan Erthygl 50(2) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU gydymffurfio â'i rhwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith yr UE tra pery'r cyfnod pontio. Mae hyn yn cynnwys rhwymedigaethau trosi.

O dan Gyfarwyddeb 2005/36/EU (a droswyd i gyfraith y DU gan Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015 (O.S. 2015/2059)), mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau gwblhau profion cymesuredd wrth reoleiddio proffesiynau.

Mae Cyfarwyddeb (EU) 2018/958 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 28 Mehefin 2018 ("Cyfarwyddeb 2018") yn mynd ymhellach ac yn sefydlu fframwaith manwl ar gyfer cynnal profion cymesuredd cyn cyflwyno darpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol newydd, neu cyn diwygio darpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol presennol, sy'n cyfyngu ar fynediad i broffesiynau rheoleiddiedig neu ddilyn y proffesiynau hynny ("darpariaeth reoleiddiol broffesiynol").

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The agreement between the United Kingdom and the EU under Article 50(2) of the Treaty on European Union which sets out the arrangements for the United Kingdom's withdrawal from the EU requires the UK to comply with its legal obligations under EU law for the duration of the transition period. This includes transposition obligations.

Under Directive 2005/36/EU (transposed into UK law by the European Union (Recognition of Professional Qualifications) Regulations 2015 (S.I. 2015/2059)), member States are required to complete proportionality tests when regulating professions.

Directive (EU) 2018/958 of the European Parliament and of the Council of 28 June 2018 ("the 2018 Directive") goes further and establishes a detailed framework for conducting proportionality tests before introducing new, or amending existing, legislative, regulatory or administrative provisions restricting access to, or the pursuit of, regulated professions ("a professional regulatory provision").

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb 2018 ac yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal yr asesiad cymesuredd hwn. Gan nad yw rhwymedigaethau'r DU i gydymffurfio â rhwymedigaethau trosi ond yn ymestyn hyd at ddiwedd y cyfnod gweithredu, mae'r Rheoliadau hyn yn gyfyngedig o ran amser a deuant i ben ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (gweler y diffiniad yn rheoliad 2).

Er bod adran 5A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020") yn darparu nad yw'r ffaith bod unrhyw beth sy'n parhau i fod yn gyfraith ddomestig, neu sy'n ffurfio rhan ohoni, ar neu ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn rhinwedd adrannau 2 i 4 o Ddeddf 2020 yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu sy'n gyfyngedig o ran amser drwy gyfeirio at y cyfnod gweithredu yn ei atal rhag cael effaith amhenodol ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn rhinwedd adrannau 2 i 4, nid oes gofyniad i'r Rheoliadau hyn gael effaith amhenodol o'r fath, ac ni fyddant felly yn parhau i gael effaith ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Mae rheoliad 3 yn nodi cwmpas y Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r proffesiynau rheoleiddiedig a restrir ym mharagraffau (1) i (3). Mae paragraff (4) yn nodi'r cyfyngiadau ar gwmpas y Rheoliadau hyn yn unol ag Erthygl 2 o Gyfarwyddeb 2018.

Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal asesiadau cymesuredd ac yn nodi'r amodau y mae rhaid eu bodloni wrth wneud hynny.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau nad yw darpariaethau rheoleiddiol proffesiynol yn gwahaniaethu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ar sail cenedligrwydd neu breswylfa.

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol gael ei chyfiawnhau gan amcanion budd y cyhoedd. Mae'n nodi pryd y bydd darpariaeth yn cael ei chyfiawnhau gan amcanion budd y cyhoedd ac yn rhoi enghreifftiau o resymau a allai ffurfio rhesymau tra phwysig er budd y cyhoedd, fel y'u rhestrir yn Erthygl 6 o Gyfarwyddeb 2018.

Mae rheoliad 7 yn ymdrin â'r egwyddor cymesuredd ac yn nodi ystyriaethau y mae rhaid rhoi sylw iddynt wrth asesu cymesuredd darpariaeth reoleiddiol broffesiynol, yn ogystal â'r rheini y mae rhaid eu hystyried pan fyddant yn berthnasol i natur a chynnwys y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol.

These Regulations implement the 2018 Directive and require the Welsh Ministers to carry out this proportionality assessment. As the UK's obligations to comply with transposition obligations only extends until the end of the implementation period, these Regulations are time-limited and will expire on IP completion day (see the definition in regulation 2).

Whilst section 5A of the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 (c. 1) ("the 2020 Act") provides that the fact that anything which continues to be, or forms part of, domestic law on or after IP completion day by virtue of sections 2 to 4 of the 2020 Act has an effect immediately before IP completion day which is time-limited by reference to the implementation period does not prevent it from having an indefinite effect on and after IP completion day by virtue of sections 2 to 4, there is no requirement for these Regulations to have such an indefinite effect, and they will not therefore continue to have effect after IP completion day.

Regulation 3 sets out the scope of these Regulations. These Regulations apply to the regulated professions listed in paragraphs (1) to (3). Paragraph (4) sets out the restrictions on the scope of these Regulations in accordance with Article 2 of the 2018 Directive.

Regulation 4 requires the Welsh Ministers to carry out proportionality assessments and sets out conditions which must be met when doing so.

Regulation 5 requires Welsh Ministers to ensure that professional regulatory provisions are neither directly nor indirectly discriminatory on the basis of nationality or residence.

Regulation 6 requires a professional regulatory provision to be justified by public interest objectives. It sets out when a provision will be justified by public interest objectives and gives examples of reasons which could constitute overriding reasons in the public interest, as listed in Article 6 of the 2018 Directive.

Regulation 7 deals with the principle of proportionality and sets out considerations which must be taken into account when assessing the proportionality of a professional regulatory provision, as well as those which must be considered when relevant to the nature and content of the professional regulatory provision.

Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau cydymffurfedd â'r egwyddor cymesuredd hefyd wrth osod gofynion penodol ar gyfer darparu gwasanaethau dros dro ac yn achlysurol.

Mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol arfaethedig ac ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol.

Mae rheoliad 10 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru anfon copi o'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol a'r asesiad cymesuredd sydd wedi ei gwblhau i'r Comisiwn Ewropeaidd.

Mae rheoliad 11 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fonitro cymesuredd darpariaeth reoleiddiol broffesiynol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Regulation 8 requires the Welsh Ministers to also ensure compliance with the principle of proportionality when imposing specific requirements for the temporary and occasional provision of services.

Regulation 9 requires the Welsh Ministers to make information publicly available about a proposed professional regulatory provision and to consult relevant stakeholders.

Regulation 10 requires the Welsh Ministers to send a copy of the professional regulatory provision and the completed proportionality assessment to the European Commission.

Regulation 11 requires the Welsh Ministers to monitor the proportionality of a professional regulatory provision.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2020 Rhif 696 (Cy. 154)

2020 No. 696 (W. 154)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**CYMWYSTERAU
PROFFESIYNOL, CYMRU**

**PROFESSIONAL
QUALIFICATIONS, WALES**

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

SOCIAL CARE, WALES

Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd
(Aseu Cymesuredd Proffesiynau
Rheoleiddiedig) (Cymru) 2020

The European Union (Regulated
Professions Proportionality
Assessment) (Wales) Regulations
2020

Gwnaed 7 Gorffennaf 2020

Made 7 July 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru* 8 Gorffennaf 2020

Laid before Senedd Cymru 8 July 2020

Yn dod i rym 30 Gorffennaf 2020

Coming into force 30 July 2020

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1) ac adran 58B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 2(2) of the European Communities Act 1972(1) and section 58B of the Government of Wales Act 2006(2), make the following Regulations.

-
- (1) 1972 p. 68. Diddymwyd Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) gydag effaith o'r diwrnod ymadael (a ddiffinnir yn adran 20 o'r Ddeddf honno fel 31 Ionawr 2020 am 11pm), ond wedi ei harbed gydag addasiadau tan ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan adran 1A o'r Ddeddf honno (fel y'i mewnosodwyd gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1)). Diwygiwyd adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.
- (2) 2006 p. 32. Mewnosodwyd adran 58B gan adrannau 20(1) ac 71(4) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4), a pharagraffau 1 a 6 o Atodlen 7 iddi, ac mae'n darparu bod adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn gymwys i Weiniogion Cymru fel pe baent yn un o Weiniogion y Goron neu'n un o adrannau'r llywodraeth a ddynodwyd gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan y ddarpariaeth honno.

-
- (1) 1972 c. 68. The European Communities Act 1972 was repealed by section 1 of the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c. 16) with effect from exit day (defined in section 20 of that Act as 31 January 2020 at 11pm), but saved with modifications until IP completion day by section 1A of that Act (as inserted by section 1 of the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 (c. 1)). Section 2(2) of the European Communities Act 1972 was amended by section 27(1) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51) and by section 3(3) of, and Part 1 of the Schedule to, the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7).
- (2) 2006 c. 32. Section 58B was inserted by sections 20(1) and 71(4) of, and paragraphs 1 and 6 of Schedule 7 to, the Wales Act 2017 (c. 4) and provides that section 2(2) of the European Communities Act 1972 applies to the Welsh Ministers as if they were a Minister of the Crown or government department designated by Order in Council under that provision.

Enwi, cychwyn, dod i ben a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Gorffennaf 2020.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn peidio â chael effaith ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu(1).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “asesiad cymesuredd” (“*proportionality assessment*”) yw asesiad o gymesuredd darpariaeth reoleiddiol broffesiynol, a gynhelir yn unol â rheoliad 4;

mae i “cymwysterau proffesiynol” yr ystyr a roddir i “professional qualifications” gan reoliad 9(1) o Reoliadau 2015;

ystyr “darpariaeth reoleiddiol broffesiynol” (“*professional regulatory provision*”) yw darpariaeth ddeddfwriaethol, reoleiddiol neu weinyddol newydd, neu ddiwygiad i ddarpariaeth ddeddfwriaethol, reoleiddiol neu weinyddol bresennol, sy'n cyfyngu ar fynediad i broffesiwn rheoleiddiedig neu ddilyn y proffesiwn hwnnw, neu un o'r dulliau o'i ddilyn, gan gynnwys defnyddio teitlau proffesiynol a'r gweithgareddau proffesiynol a ganiateir o dan deitl o'r fath;

mae i “diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu” yr ystyr a roddir i “IP completion day” yn adran 39(1) i (5) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020(2);

mae i “proffesiwn rheoleiddiedig” yr ystyr a roddir i “regulated profession” gan reoliad 8(1) o Reoliadau 2015;

ystyr “Rheoliadau 2015” (“*the 2015 Regulations*”) yw Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015(3).

Cwmpas

3.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r proffesiynau a ganlyn—

(1) Bydd y Rheoliadau hyn yn peidio â chael effaith ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu er gwaethaf adran 5A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1).

(2) 2020 p. 1.

(3) O.S. 2015/2059, a ddiwygiwyd gan baragraff 389 o Atodlen 19 i Ddeddf Diogelu Data 2018 (p. 12), O.S. 2016/696, 2016/1094, 2016/1030, 2018/166, 2018/838 a 2018/1101.

Title, commencement, expiry and application

1.—(1) The title of these Regulations is the European Union (Regulated Professions Proportionality Assessment) (Wales) Regulations 2020.

(2) These Regulations come into force on 30 July 2020.

(3) These Regulations cease to have effect on IP completion day(1).

(4) These Regulations apply in relation to Wales.

Interpretation

2. In these Regulations—

“the 2015 Regulations” (“*Rheoliadau 2015*”) means the European Union (Recognition of Professional Qualifications) Regulations 2015(2);

“IP completion day” (“*diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu*”) has the meaning given in section 39(1) to (5) of the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020(3);

“professional qualifications” (“*cymwysterau proffesiynol*”) has the meaning given by regulation 9(1) of the 2015 Regulations;

“professional regulatory provision” (“*darpariaeth reoleiddiol broffesiynol*”) means a new, or an amendment to an existing, legislative, regulatory or administrative provision restricting access to a regulated profession or its pursuit, or one of its modes of pursuit, including the use of professional titles and the professional activities allowed under such title;

“proportionality assessment” (“*asesiad cymesuredd*”) means an assessment of the proportionality of a professional regulatory provision, carried out in accordance with regulation 4;

“regulated profession” (“*proffesiwn rheoleiddiedig*”) has the meaning given by regulation 8(1) of the 2015 Regulations.

Scope

3.—(1) These Regulations apply to the profession of—

(1) These Regulations will cease to have effect on IP completion day despite section 5A of the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 (c. 1).

(2) S.I. 2015/2059, amended by paragraph 389 of Schedule 19 to the Data Protection Act 2018 (c. 12), S.I. 2016/696, 2016/1094, 2016/1030, 2018/166, 2018/838 and 2018/1101.

(3) 2020 c. 1.

- (a) athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig (o fewn yr ystyr a roddir i “qualified teacher” gan adran 132 o Ddeddf Addysg 2002(1)) mewn ysgol (fel y’i diffinnir yn adran 14(6) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014(2)) yng Nghymru;
- (b) pennaeth (o fewn yr ystyr a roddir i “head teacher” gan adran 135 o Ddeddf Addysg 2002) mewn ysgol (fel y’i diffinnir yn adran 14(6) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014) yng Nghymru.

(2) Mae’r Rheoliadau hyn yn gymwys i broffesiwn athro neu athrawes mewn sefydliad addysg bellach (o fewn yr ystyr a roddir i “further education institution” gan adran 140 o Ddeddf Addysg 2002) yng Nghymru.

(3) Mae’r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw broffesiwn a reoleiddir o dan Ran 4 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(3).

(4) Nid yw’r Rheoliadau hyn yn gymwys i—

- (a) unrhyw broffesiwn y mae trefniadau penodol sy’n ymwneud yn uniongyrchol â chydabod cymwysterau proffesiynol wedi eu gwneud mewn perthynas ag ef yn unrhyw Reoliad gan yr UE, unrhyw Gyfarwyddeb gan yr UE, unrhyw benderfyniad gan yr UE neu unrhyw ddeddfwriaeth drydyddol gan yr UE ac mae effaith y trefniadau hynny yn eithrio cymhwyso Cyfarwyddeb 2005/36/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor dyddiedig 7 Medi 2005 ynghylch cydnabod cymwysterau proffesiynol(4);
- (b) darpariaeth reoleiddiol broffesiynol i’r graddau y mae’n gweithredu deddfwriaeth yr UE ynghylch rheoleiddio proffesiwn, pan na fo dewis o ran yr union ffordd y mae’r gofynion hynny i’w trosi.

Gofyniad i gynnal asesiad cymesuredd

4.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal asesiad cymesuredd mewn cysylltiad â darpariaeth reoleiddiol broffesiynol cyn i’r ddarpariaeth gymryd effaith.

(2) Wrth gynnal asesiad cymesuredd, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau—

- (a) bod y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol yn cydymffurfio â phob un o’r gofynion a nodir yn rheoliadau 5 i 8,

- (a) qualified teacher (within the meaning of section 132 of the Education Act 2002(1)) in a school (as defined in section 14(6) of the Education (Wales) Act 2014(2)) in Wales;
- (b) head teacher (within the meaning of section 135 of the Education Act 2002) in a school (as defined in section 14(6) of the Education (Wales) Act 2014) in Wales.

(2) These Regulations apply to the profession of teacher at a further education institution (within the meaning of section 140 of the Education Act 2002) in Wales.

(3) These Regulations apply to any profession regulated under Part 4 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016(3).

(4) These Regulations do not apply to—

- (a) any profession in relation to which specific arrangements directly related to the recognition of professional qualifications are made in any EU Regulation, EU Directive, EU decision or EU tertiary legislation and the effect of those arrangements exclude the application of Directive 2005/36/EC of the European Parliament and the Council of 7th September 2005 on the recognition of professional qualifications(4);
- (b) a professional regulatory provision to the extent that it implements EU legislation concerning the regulation of a profession, where there is no choice as to the exact way in which those requirements are to be transposed.

Requirement to carry out a proportionality assessment

4.—(1) The Welsh Ministers must carry out a proportionality assessment in respect of a professional regulatory provision before the provision takes effect.

(2) When carrying out a proportionality assessment, the Welsh Ministers must ensure that—

- (a) the professional regulatory provision complies with each of the requirements set out in regulations 5 to 8,

(1) 2002 p. 32.
 (2) 2014 decc 5.
 (3) 2016 decc 2.
 (4) OJ Rhif L 255, 30.9.2005, t. 22, fel y’i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2013/55/EU (OJ Rhif L 354, 28.12.2013, t. 132).

(1) 2002 c. 32.
 (2) 2014 anaw 5.
 (3) 2016 anaw 2.
 (4) OJ No. L 255, 30.9.2005, p. 22, as amended by Directive 2013/55/EU (OJ No. L 354, 28.12.2013, p. 132).

- (b) bod rhychwant yr asesiad yn gymesur â natur, cynnwys ac effaith y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol,
- (c) bod y rhesymau dros ystyried bod y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol yn gyfiawn ac yn gymesur wedi eu cadarnhau gan elfennau ansoddol a, phan fo'n bosibl ac yn berthnasol, gan elfennau meintiol, a
- (d) bod yr asesiad yn cael ei gynnal mewn modd gwrthrychol ac annibynnol.

- (b) the extent of the assessment is proportionate to the nature, content and impact of the professional regulatory provision,
- (c) the reasons for considering that the professional regulatory provision is justified and proportionate are substantiated by qualitative and, wherever possible and relevant, quantitative elements, and
- (d) the assessment is carried out in an objective and independent manner.

Peidio â gwahaniaethu

5. Ni chaiff darpariaeth reoleiddiol broffesiynol wahaniaethu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol yn erbyn gwladolion un o Aelod-wladwriaethau'r UE(1) ar sail cenedligrwydd neu breswylfa.

Non-discrimination

5. A professional regulatory provision must not directly or indirectly discriminate against nationals of an EU member State(1) on the basis of nationality or residence.

Cyfiawnhad gan amcanion budd y cyhoedd

6.—(1) Rhaid i ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol gael ei chyfiawnhau gan amcanion budd y cyhoedd.

(2) Mae darpariaeth reoleiddiol broffesiynol wedi ei chyfiawnhau gan amcanion budd y cyhoedd os yw wedi ei chyfiawnhau'n wrthrychol ar sail polisi cyhoeddus, diogeled y cyhoedd neu iechyd y cyhoedd, neu gan resymau tra phwysig er budd y cyhoedd.

(3) Mae rhesymau tra phwysig er budd y cyhoedd yn cynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt)—

- (a) cynnal cydbwysedd ariannol y system nawdd cymdeithasol;
- (b) diogelu defnyddwyr, derbynyddion gwasanaethau a gweithwyr;
- (c) diogelu bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu'n briodol;
- (d) sicrhau tegwch o ran trafodiadau masnach;
- (e) brwydro yn erbyn twyll ac atal efadu trethi ac osgoi trethi, a diogelu effeithiolrwydd goruchwyliaeth gyllidol;
- (f) diogelwch trafniadaeth;
- (g) diogelu'r amgylchedd a'r amgylchedd trefol;
- (h) iechyd anifeiliaid;
- (i) diogelu eiddo deallusol;
- (j) amddiffyn y dreftadaeth hanesyddol a chelfyddydol genedlaethol a'i chadwraeth;

Justification by public interest objectives

6.—(1) A professional regulatory provision must be justified by public interest objectives.

(2) A professional regulatory provision is justified by public interest objectives if it is objectively justified on the basis of public policy, public security or public health, or by overriding reasons in the public interest.

(3) Overriding reasons in the public interest include (but are not limited to)—

- (a) preserving the financial equilibrium of the social security system;
- (b) the protection of consumers, of recipients of services and of workers;
- (c) the safeguarding of the proper administration of justice;
- (d) ensuring the fairness of trade transactions;
- (e) the combating of fraud and the prevention of tax evasion and avoidance, and the safeguarding of the effectiveness of fiscal supervision;
- (f) transport safety;
- (g) the protection of the environment and the urban environment;
- (h) the health of animals;
- (i) the protection of intellectual property;
- (j) the safeguarding and conservation of the national historic and artistic heritage;

(1) Nid yw Cyfarwydddeb (EU) 2018/958 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 28 Mehefin 2018 wedi ei mabwysiadu gan wladwriaethau Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA) yr AEE (Norwy, Liechtenstein a Gwlad yr Iâ) na'r Swistir.

(1) Directive (EU) 2018/958 of the European Parliament and of the Council of 28 June 2018 has not been adopted by the EEA EFTA states (Norway, Liechtenstein and Iceland) or Switzerland.

- (k) amcanion polisi cymdeithasol;
- (l) amcanion polisi diwylliannol.

(4) Nid yw rhesymau tra phwysig er budd y cyhoedd yn cynnwys seiliau o natur economaidd yn unig neu resymau gweinyddol yn unig.

Cymesuredd

7.—(1) Rhaid i ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol fod yn addas ar gyfer cyflawni'r amcan a geisir ac ni chaiff fynd y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcan hwnnw.

(2) Wrth gynnal asesiad cymesuredd, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried y canlynol—

- (a) natur y risgiau sy'n ymwneud â'r amcanion budd y cyhoedd a geisir, yn benodol y risgiau i dderbynyddion y gwasanaeth (gan gynnwys defnyddwyr), proffesiynolion neu drydydd partïon;
- (b) a yw'r rheolau presennol o natur benodol neu fwy cyffredinol, megis y rheini sydd wedi eu cynnwys yng nghyfraith diogelwch cynhyrchion neu gyfraith diogelu defnyddwyr, yn annigonol i gyflawni'r amcan a geisir;
- (c) addasrwydd y ddarpariaeth o ran pa mor briodol ydyw i gyflawni'r amcan a geisir ac a yw'n adlewyrchu'n wirioneddol yr amcan hwnnw mewn modd cyson a systematig ac yn mynd i'r afael â'r risgiau a nodir mewn ffordd debyg i weithgareddau cymaradwy;
- (d) effaith y ddarpariaeth ar—
 - (i) symudiad rhydd personau a gwasanaethau o fewn yr Undeb Ewropeaidd,
 - (ii) dewis defnyddwyr, a
 - (iii) ansawdd y gwasanaeth a ddarperir;
- (e) y posibilrwydd o ddefnyddio dulliau llai cyfyngol i gyflawni'r amcan budd y cyhoedd, gan gynnwys, yn benodol, a ellir cyflawni'r amcan drwy ddulliau sy'n llai cyfyngol na neilltuo gweithgareddau—
 - (i) pan fo diogelu defnyddwyr yn unig yn cyfiawnhau'r darpariaethau;
 - (ii) pan fo'r risgiau a nodir yn gyfyngedig i'r berthynas rhwng y proffesiynolyn a'r defnyddiwr ac felly na fônt yn effeithio ar drydydd partïon yn negyddol;

- (k) social policy objectives;
- (l) cultural policy objectives.

(4) Overriding reasons in the public interest do not include grounds of a purely economic nature or purely administrative reasons.

Proportionality

7.—(1) A professional regulatory provision must be suitable for achieving the objective pursued and must not go beyond what is necessary to achieve that objective.

(2) When carrying out a proportionality assessment, the Welsh Ministers must consider—

- (a) the nature of the risks related to the public interest objectives pursued, in particular the risks to service recipients (including consumers), professionals or third parties;
- (b) whether existing rules of a specific or more general nature, such as those contained in product safety law or consumer protection law, are insufficient to achieve the objective pursued;
- (c) the suitability of the provision as regards its appropriateness to achieve the objective pursued and whether it genuinely reflects that objective in a consistent and systematic manner and addresses the risks identified in a similar way as in comparable activities;
- (d) the impact of the provision on—
 - (i) the free movement of persons and services within the European Union,
 - (ii) consumer choice, and
 - (iii) the quality of the service provided;
- (e) the possibility of using less restrictive means to achieve the public interest objective, including, in particular, whether the objective can be achieved by means that are less restrictive than reserving activities where—
 - (i) the provisions are justified by consumer protection only;
 - (ii) the risks identified are limited to the relationship between the professional and the consumer and therefore do not negatively affect third parties;

- (f) effaith y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol, pan yw wedi ei chyfuno â darpariaethau eraill sy'n cyfyngu ar fynediad i'r proffesiwn neu ei ddilyn, ac yn benodol sut y mae'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol, ar y cyd â gofynion eraill, yn cyfrannu at gyflawni'r un amcan budd y cyhoedd ac a ydynt yn angenrheidiol er mwyn ei gyflawni.

(3) Wrth roi sylw i'r ystyriaeth a nodir ym mharagraff (2)(f), rhaid i Weinidogion Cymru asesu effaith y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol pan yw wedi ei chyfuno ag un neu ragor o ofynion, gan gynnwys yn benodol—

- (a) gweithgareddau sydd wedi eu neilltuo, teitlau proffesiynol gwarchoddedig neu unrhyw ffurf arall ar reoleiddio proffesiwn rheoleiddiedig;
- (b) rhwymedigaethau i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus;
- (c) rheolau sy'n ymwneud â threfniadaeth y proffesiwn, moeseg broffesiynol a goruchwyliaeth;
- (d) aelodaeth orfodol o sefydliad neu gorff proffesiynol, cynlluniau cofrestru neu awdurdodi, yn benodol pan fo'r gofynion hynny yn awgrymu meddu ar gymhwyster proffesiynol penodol;
- (e) cyfyngiadau meintioli, yn benodol gofynion sy'n cyfyngu ar nifer yr awdurdodiadau i ymarfer, neu sy'n pennu isafswm neu uchafswm nifer y cyflogeion, rheolwyr neu gynrychiolwyr sy'n dal cymwysterau proffesiynol penodol;
- (f) gofynion penodol o ran ffurf gyfreithiol neu ofynion sy'n ymwneud â chyfranddalwyr neu reolwyr cwmni, i'r graddau y mae'r gofynion hynny yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag arfer y proffesiwn rheoleiddiedig;
- (g) cyfyngiadau tiriogaethol, gan gynnwys pan fo'r proffesiwn yn cael ei reoleiddio mewn rhannau o'r Deyrnas Unedig mewn modd sy'n wahanol i'r ffordd y mae'n cael ei reoleiddio mewn rhannau eraill;
- (h) gofynion sy'n cyfyngu ar arfer proffesiwn rheoleiddiedig ar y cyd neu mewn partneriaeth, yn ogystal â rheolau anghydnawsedd;
- (i) gofynion ynghylch sicrwydd yswiriant neu ddulliau eraill o ddiogelu personol neu dorfol o ran atebolrwydd proffesiynol;
- (j) gofynion o ran gwybodaeth o ieithoedd, i'r graddau y maent yn angenrheidiol i ymarfer y proffesiwn;

- (f) the effect of the professional regulatory provision, when combined with other provisions restricting access to, or the pursuit of, the profession, and in particular how the professional regulatory provision, combined with other requirements contribute to and whether they are necessary for the achievement of the same public interest objective.

(3) When taking into account the consideration set out in paragraph (2)(f), the Welsh Ministers must assess the effect of the professional regulatory provision when combined with one or more requirements, including in particular—

- (a) reserved activities, protected professional titles or any other form of regulation of a regulated profession;
- (b) obligations to undergo continuous professional development;
- (c) rules relating to the organisation of the profession, professional ethics and supervision;
- (d) compulsory membership of a professional organisation or body, registration or authorisation schemes, in particular where those requirements imply the possession of a specific professional qualification;
- (e) quantitative restrictions, in particular requirements limiting the number of authorisations to practise, or fixing a minimum or a maximum number of employees, managers or representatives holding specific professional qualifications;
- (f) specific legal form requirements or requirements which relate to the shareholding or management of a company, to the extent those requirements are directly linked to the exercise of the regulated profession;
- (g) territorial restrictions, including where the profession is regulated in parts of the United Kingdom in a manner that is different to the way in which it is regulated in other parts;
- (h) requirements restricting the exercise of a regulated profession jointly or in partnership, as well as incompatibility rules;
- (i) requirements concerning insurance cover or other means of personal or collective protection with regard to professional liability;
- (j) language knowledge requirements, to the extent necessary to practise the profession;

(k) gofynion o ran isafswm tariff penodedig a/neu uchafswm tariff penodedig;

(l) gofynion o ran hysbysebu.

(4) Pan fo'n berthnasol i natur a chynnwys y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol, rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ystyried—

(a) y cysylltiad rhwng cwmpas y gweithgareddau y mae proffesiwn yn eu cynnwys neu sydd wedi eu neilltuo iddo a'r cymhwyster proffesiynol sy'n ofynnol,

(b) y cysylltiad rhwng cymhlethdod y tasgau o dan sylw a'r angen i'r rheini sy'n ymgymryd â hwy feddu ar gymwysterau proffesiynol penodol, yn arbennig o ran lefel, natur a hyd yr hyfforddiant neu'r profiad sy'n ofynnol,

(c) y posibilrwydd o gael y cymhwyster proffesiynol drwy lwybrau eraill,

(d) pa un a all y gweithgareddau sydd wedi eu neilltuo i broffesiynau penodol gael eu rhannu â phroffesiynau eraill ai peidio, a pham,

(e) graddau'r ymreolaeth wrth arfer proffesiwn rheoleiddiedig ac effaith trefniadau gweithdrefnol a goruchwyliaeth ar gyflawni'r amcan a geisir, yn benodol pan fo'r gweithgareddau sy'n ymwneud â phroffesiwn rheoleiddiedig yn cael eu dilyn o dan reolaeth a chyfrifoldeb proffesiynolyn sydd wedi ei gymhwysu'n briodol, ac

(f) y datblygiadau gwyddonol a technolegol a all leihau neu gynyddu'n effeithiol anghydfurfedd gwybodaeth rhwng proffesiynolion a defnyddwyr.

(5) Pan fo darpariaeth reoleiddiol broffesiynol yn ymwneud â rheoleiddio proffesiynau gofal iechyd ac y mae iddi oblygiadau diogelwch i gleifion, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried yr amcan o sicrhau lefel uchel o ddiogelu iechyd dynol wrth gynnal asesiad cymesuredd o'r ddarpariaeth.

(6) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "teitl proffesiynol gwarchoddedig" yw ffurf ar reoleiddio proffesiwn pan fo defnyddio'r teitl mewn gweithgaredd proffesiynol neu grŵp o weithgareddau proffesiynol yn ddarostyngedig, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn rhinwedd darpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol i feddu ar gymhwyster proffesiynol penodol, a phan fo defnyddio'r teitl hwnnw yn amhriodol yn ddarostyngedig i sancsiynau;

(k) fixed minimum and/or maximum tariff requirements;

(l) requirements on advertising.

(4) Where relevant to the nature and content of the professional regulatory provision, the Welsh Ministers must also consider—

(a) the connection between the scope of activities covered by a profession or reserved to it and the professional qualification required,

(b) the connection between the complexity of the tasks concerned and the need for those carrying them out to possess specific professional qualifications, in particular as regards the level, nature and duration of the training or experience required,

(c) the possibility of obtaining the professional qualification by alternative routes,

(d) whether, and why, the activities reserved to certain professions can or cannot be shared with other professions,

(e) the degree of autonomy in exercising a regulated profession and the impact of organisational and supervision arrangements on the achievement of the objective pursued, in particular where the activities relating to a regulated profession are pursued under the control and responsibility of a duly qualified professional, and

(f) the scientific and technological developments which may effectively reduce or increase the asymmetry of information between professionals and consumers.

(5) Where a professional regulatory provision concerns the regulation of healthcare professions and has patient safety implications, the Welsh Ministers must take account of the objective of ensuring a high level of human health protection when carrying out a proportionality assessment of the provision.

(6) In this regulation—

(a) "protected professional title" means a form of regulating a profession where the use of the title in a professional activity or group of professional activities is subject, directly or indirectly, by virtue of legislative, regulatory or administrative provisions to the possession of a specific professional qualification, and where the improper use of that title is subject to sanctions;

- (b) ystyr “gweithgareddau sydd wedi eu neilltuo” yw ffurf ar reoleiddio proffesiwn pan fo’r mynediad i weithgaredd proffesiynol neu grŵp o weithgareddau proffesiynol wedi ei neilltuo, yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, yn rhinwedd darpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol i aelodau o broffesiwn rheoleiddiedig sy’n dal cymhwyster proffesiynol penodol, gan gynnwys pan fo’r gweithgaredd yn cael ei rannu â phroffesiynau rheoleiddiedig eraill.

Darparu gwasanaethau dros dro ac yn achlysurol

8.—(1) Cyn i ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol gymryd effaith, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau cydymffurfedd â’r egwyddor cymesuredd ar gyfer unrhyw ofyniad penodol yn y ddarpariaeth honno sy’n ymwneud â darparu gwasanaethau dros dro ac yn achlysurol, a ddarperir o dan Ran 2 o Reoliadau 2015, gan gynnwys—

- (a) cofrestru dros dro awtomatig â sefydliad neu gorff proffesiynol neu aelodaeth pro forma ohono, yn unol â rheoliad 14(2) o Reoliadau 2015;
- (b) datganiad sydd i’w wneud ymlaen llaw yn unol â rheoliad 15 o Reoliadau 2015, dogfennau sydd i fod yn ofynnol yn unol â rheoliad 16 o Reoliadau 2015, neu unrhyw ofyniad cyfatebol arall;
- (c) talu ffi, neu unrhyw daliadau, sy’n ofynnol am y gweithdrefnau gweinyddol, sy’n ymwneud â mynediad i broffesiynau rheoleiddiedig neu â dilyn y proffesiynau hynny, y mae’r darparwr gwasanaeth yn mynd iddynt.

(2) Nid yw’r rheoliad hwn yn gymwys i fesurau sydd wedi eu cynllunio i sicrhau cydymffurfedd â thelerau ac amodau cyflogaeth cymwys a gymhwysir yn unol â chyfraith yr UE.

Gwybodaeth i’r cyhoedd ac ymgynghori

9.—(1) Cyn i ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol arfaethedig gymryd effaith, rhaid i Weinidogion Cymru—

- (a) drwy ddulliau priodol, roi gwybodaeth am ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol arfaethedig ar gael i’r cyhoedd, derbynyddion y gwasanaeth a rhanddeiliaid perthnasol eraill, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn aelodau o’r proffesiwn o dan sylw;
- (b) ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol ac unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

- (b) “reserved activities” means a form of regulating a profession where the access to a professional activity or group of professional activities is reserved, directly or indirectly, by virtue of legislative, regulatory or administrative provisions to members of a regulated profession holding a specific professional qualification, including where the activity is shared with other regulated professions.

Temporary and occasional provision of services

8.—(1) Before a professional regulatory provision takes effect, the Welsh Ministers must ensure compliance with the principle of proportionality of any specific requirement in that provision related to temporary and occasional provision of services, provided under Part 2 of the 2015 Regulations, including—

- (a) automatic temporary registration with or pro forma membership of a professional organisation or body, in accordance with regulation 14(2) of the 2015 Regulations;
- (b) a declaration to be made in advance in accordance with regulation 15 of the 2015 Regulations, documents to be required in accordance with regulation 16 of the 2015 Regulations, or any other equivalent requirement;
- (c) the payment of a fee, or any charges, required for the administrative procedures, related to the access to, or pursuit of, regulated professions which the service provider incurs.

(2) This regulation does not apply to measures designed to ensure compliance with applicable employment terms and conditions applied in accordance with EU law.

Public information and consultation

9.—(1) Before a proposed professional regulatory provision takes effect, the Welsh Ministers must—

- (a) by appropriate means, make information about a proposed professional regulatory provision available to the public, service recipients and other relevant stakeholders, including those who are not members of the profession concerned;
- (b) consult relevant stakeholders and such persons as they consider appropriate.

(2) Rhaid i ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol ddod gydag esboniad sy'n ddigon manwl i'w gwneud yn bosibl asesu cymesuredd y ddarpariaeth.

Adrodd

10.—(1) Ar ôl cwblhau asesiad cymesuredd, rhaid i Weinidogion Cymru anfon yr wybodaeth a restrir ym mharagraff (2) i'r Comisiwn Ewropeaidd a'i chofnodi yn y gronfa ddata o broffesiynau rheoleiddiedig y cyfeirir ati yn Erthygl 59(1) o Gyfarwyddeb 2005/36/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 7 Medi 2005 ynghylch cydnabod cymwysterau proffesiynol(1).

(2) Yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan baragraff (1) yw—

- (a) copi o'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol, a
- (b) y rhesymau dros ystyried bod y ddarpariaeth yn gyfiawn ac yn gymesur.

Monitro darpariaethau rheoleiddiol proffesiynol

11. Ar ôl i ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol gymryd effaith, rhaid i Weinidogion Cymru fonitro cydymffurfedd y ddarpariaeth â'r egwyddor cymesuredd, gan roi sylw dyledus i unrhyw ddatblygiadau sydd wedi digwydd ers iddi gymryd effaith.

(2) A professional regulatory provision must be accompanied by an explanation which is sufficiently detailed to make it possible to assess the proportionality of the provision.

Report

10.—(1) After completing a proportionality assessment, the Welsh Ministers must send the information listed in paragraph (2) to the European Commission and record it in the database of regulated professions referred to in Article 59(1) of Directive 2005/36/EC of the European Parliament and of the Council of 7th September 2005 on the recognition of professional qualifications(1).

(2) The information required under paragraph (1) is—

- (a) a copy of the professional regulatory provision, and
- (b) the reasons for considering that the provision is justified and proportionate.

Monitoring of professional regulatory provisions

11. After a professional regulatory provision takes effect, the Welsh Ministers must monitor the compliance of the provision with the principle of proportionality, having due regard to any developments that have occurred since it took effect.

Kirsty Williams

Y Gweinidog Addysg, un o weinidogion Cymru
7 Gorffennaf 2020

©©Hawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Education, one of the Welsh Ministers
7 July 2020

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) OJ Rhif L 255, 30.9.2005, t. 22, a ddiwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2013/55/EU (OJ Rhif L 354, 28.12.2013, t. 132).

(1) OJ No. L 255, 30.9.2005, p. 22, as amended by Directive 2013/55/EU (OJ No. L 354, 28.12.2013, p. 132).

£6.90

W202007071017 07/2020

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/696>

ISBN 978-0-348-20581-7



9 780348 205817